

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

Ionawr 2019

## 1. Y cefndir

1. Ar 15 Tachwedd 2018, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 20 Tachwedd 2018, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) ac adrodd arno. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, gosododd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau o 22 Ionawr 2019 ar gyfer cyflwyno adroddiad.
3. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig dyddiad ar gyfer dadl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol tra bod trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt er ei bod yn debygol y cynhelir y ddadl yn gynnar yn 2019 o ystyried y tebygolrwydd y bydd y Bil yn symud yn gyflym.

## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 15 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu



cyfer. Mae paragraffau 16 i 19 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio Bil y DU i ymdrin â'r darpariaethau hyn.

## Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â hwy

**5.** Ystyrir bod Cymalau 1, 2, 4 a 5 yn gofyn am gydsyniad ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben sydd naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel y maent yn ymwneud ag iechyd. (Mae Cymalau 3 a 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli, graddfa a chychwyn at ddibenion y cymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.)

### Cymal 1 Pŵer i wneud taliadau gofal iechyd

**6.** Mae Cymal 1 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau ac i drefnu i daliadau gael eu gwneud i ariannu gofal iechyd y tu allan i'r DU.

**7.** Os bydd y trefniadau gofal iechyd cyfatebol newydd yn debyg i drefniadau cyfredol yr UE, gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, ariannu gofal iechyd ar gyfer pobl sy'n derbyn pensiwn y wladwriaeth sy'n byw y tu allan i'r DU, darparu gofal iechyd i breswylwyr y DU sy'n ymweld â gwledydd y tu allan i'r DU, ariannu gofal iechyd i weithwyr a adleolir a chyllid i drigolion y DU dderbyn triniaeth a gynlluniwyd mewn gwledydd eraill.

### Cymal 2 Gofal iechyd a chytundebau gofal iechyd

**8.** Mae Cymal 2 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn perthynas â Chymal 1, mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd y tu allan i'r DU, ac i roi cytundebau gofal iechyd ar waith.

**9.** Rhagwelir pe bai'r DU yn ymadael â'r UE gyda bargaen, y byddai'r pŵer hwn yn galluogi gweithredu trefniadau gofal iechyd yn y dyfodol gyda'r UE, aelod-wladwriaethau unigol neu drydydd gwledydd o fis Ionawr 2021 ymlaen. Mewn sefyllfa dim bargaen, byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i roi trefniadau gofal iechyd cyfatebol newydd ar waith ar y diwrnod ymadael neu wedi hynny.

**10.** Er mai penderfyniad y DU yw gwneud cytundebau dwyochrog neu amlochrog â thiriogaethau a sefydliadau rhyngwladol eraill, gall y Cynulliad ddeddfu at ddibenion arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n ymwneud â materion datganoledig, megis gofal iechyd.

## Cymal 4 Prosesu data

- 11.** Mae Cymal 4 yn rhoi pwerau i alluogi personau awdurdodedig i brosesu data personol i hwyluso trefniadau gofal iechyd cyfatebol.
- 12.** Gall fod yn angenrheidiol i bersonau awdurdodedig rannu data personol, gan gynnwys data meddygol, gyda phobl neu gyrff cyfatebol dramor i hwyluso unrhyw drefniadau gofal iechyd cyfatebol. Ar hyn o bryd mae cyfraith yr UE yn darparu'r pwerau angenrheidiol i wneud hyn. Byddai'r porth prosesu data hwn yn cefnogi'r gweithrediad o daliadau a threfniadau ar gyfer gofal iechyd y tu allan i'r DU y darperir ar eu cyfer dan Cymal 1.

## Cymal 5 Rheoliadau a chyfarwyddiadau

- 13.** Mae Cymal 5 yn rhoi pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Mesur neu Ddeddf y Cynulliad, at ddibenion rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw berson arall, neu i roi cytundeb gofal iechyd ar waith.
- 14.** Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag iechyd ac arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n ymwneud â gofal iechyd.

## 3. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

- 15.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, ar ôl ymadael â'r UE, bod angen deddfwriaeth i wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau gofal iechyd cyfatebol i roi sicrwydd i drigolion y DU. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i unigolion deithio, gweithio a chael triniaeth y tu allan i'r DU lle efallai nad yw hyn yn bosibl fel arall. Yn achos ymadael â'r UE heb fargen, bydd yn bwysig rhoi sicrwydd i drigolion cyn gynted â phosibl. Felly, mae brys i amseriad y Bil a'r deddfwriaeth a wneir ohoni.
- 16.** Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod manteision o gael un dull ledled y DU, bydd unrhyw gytundeb gofal iechyd a wneir ar ran y DU yn effeithio ar y GIG yng Nghymru a bydd y deddfwriaeth hon felly yn cael effaith sylweddol ar faes polisi datganoledig.
- 17.** Mae pryderon sydd heb eu datrys ynghylch i ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith o lywio a llunio'r cytundebau gofal iechyd sydd i'w

cyflwyno o dan y Bil a fydd yn effeithio ar y GIG yng Nghymru. Felly, mae angen ystyried p'un a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ai peidio yn sgil y sicrwydd deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a roddwyd gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar feysydd datganoledig yng Nghymru.

**18.** Bydd gwaith pellach i ddatrys pryderon Llywodraeth Cymru yn parhau yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd a bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei gyflwyno os bydd angen.

## 4. Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

**19.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 9 Ionawr 2019 a chawsom dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog).

**20.** Rydym yn cefnogi barn y Gweinidog bod y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall trigolion y DU barhau i elwa o drefniadau gofal iechyd cyfatebol, ac yn rhannu ei ffafriaeth am ddull cyson ledled y DU.

**21.** Rydym yn nodi ac yn rhannu pryderon y Gweinidog, sef:

- Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau (o dan Gymal 2(2)) a fydd yn gweithredu manylion cytundebau gofal iechyd newydd er y byddai'r rhain yn gosod rhwymedigaethau ar GIG Cymru a fyddai'n amlwg o fewn cymhwysedd datganoledig. Nid yw'r Bil ychwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Cymal hwn (gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i lywodraethu sut y dylai ymgynghoriad o'r fath weithredu).
- Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth gyffredinol (yng Nghymal 5(3)) a fydd yn galluogi gwneud rheoliadau a all ddiwygio, diddymu neu ddirymu Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**22.** Mynegodd y Gweinidog ei siom yn y Bil yn cael ei gyflwyno heb i Lywodraeth Cymru gael digon o rybudd amdano gan Lywodraeth y DU. Rydym yn cytuno y gellid fod wedi gwella'r broses drwy roi mwy o rybudd, yn enwedig o gofio bod y rhybudd byr wedi arwain at broses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dechrau yn hwyrach nag y byddai fel arall.

**23.** Credwn, pan fo Bil yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig neu'n rhoi pwerau i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig, rhaid i Lywodraeth y DU ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gynnar. Rydym o'r farn y byddai cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth sy'n nodi gweithdrefn ar gyfer hyn o gymorth.

**24.** Rydym hefyd yn pryderu bod rhywfaint o ansicrwydd erbyn hyn ynghylch y sicrwydd a roddwyd eisoes gan Lywodraeth y DU na fydd beichiau ariannol ychwanegol yn cael eu rhoi ar Weinyddiaethau Datganoledig mewn perthynas â chynlluniau'r DU.

**25.** Felly, rydym yn nodi ac yn cefnogi sefyllfa'r Gweinidog i beidio ag argymhell cydsyniad hyd nes bod gwelliannau a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Rhaid i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddarparu sicrwydd boddhaol ar gyfer proses a natur yr ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn.